## CANLLAWIAU FFORYMAU DERBYN

### Pwrpas

Sicrhau system dderbyn deg sy'n syml ac yn hawdd i rieni ei deall.

Mae fforymau'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiad â'r Cod Derbyn ac os ystyrir bod trefniadau derbyn yn annheg, NEU os nad ydynt yn unol â'r Cod, ac na ellir datrys y mater yn lleol, gellir cyfeirio'r mater er ystyriaeth Gweinidogion Cymru.

### Gofyniad Cyfreithiol

Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol sefydlu Fforwm Derbyn i weinyddu'r canlynol:-

Trafod effeithiolrwydd trefniadau derbyn lleol;
Delio â materion derbyn anodd;
Darparu cyngor ac arweiniad yn hynny o beth ac awgrymu gwelliannau lle bo angen.

### Rôl y Fforwm

Sicrhau system dderbyn deg sy'n hyrwyddo tegwch cymdeithasol, ac mae'n hanfodol cadw at y canlynol:-

- Ystyried i ba raddau mae'r trefniadau derbyn presennol ac arfaethedig yn sicrhau buddiannau plant a rhieni o fewn ardal yr ALl;
- Hyrwyddo cytundeb ar faterion derbyn;
- Ystyried pa mor gynhwysfawr a hygyrch yw'r llenyddiaeth a'r wybodaeth dderbyn a gynhyrchir ar gyfer rhieni gan bob awdurdod derbyn o fewn ardal y fforwm;
- Ystyried effeithiolrwydd trefniadau derbyn cydgysylltiedig arfaethedig yr ALl;
- Ystyried dulliau o wella prosesau derbyn a'r berthynas rhwng y derbyniadau go iawn â nifer y derbyniadau a gyhoeddwyd;
- Monitro'r drefn ar gyfer derbyn plant sy'n cyrraedd ardal yr ALl y tu allan i'r cyfnod derbyn arferol, gyda golwg ar hyrwyddo trefniadau i ddosbarthu plant o'r fath mewn ffordd deg ymhlith ysgolion lleol, gan roi ystyriaeth i unrhyw ddewisiadau a ffafrir.
- Hyrwyddo'r trefniadau ar gyfer plant ag AAA, plant mewn gofal a phlant a waharddwyd o'r ysgol.

### Sicrhau mynediad teg

Rhaid i Fforymau Derbyn:

- Adolygu pa mor gynhwysfawr, effeithiol a hygyrch yw'r cyngor a'r arweiniad a roddir i rieni gan yr ALl a'r ysgol trwy gyfrwng y prosbectws cyfansawdd

cyhoeddedig - rhaid i bob ALl gyhoeddi prosbectws blynyddol cyfansawdd sy'n gosod y trefniadau derbyn a bennwyd, gan gynnwys amserlen ar gyfer y broses dderbyn, ynghyd â dyddiadau perthnasol ar gyfer derbyn a phennu ceisiadau a derbyn apeliadau. Rhaid cyhoeddi'r prosbectws hwn erbyn 1 Hydref yn y flwyddyn ysgol sy'n dod yn union cyn y flwyddyn ysgol mae'r trefniadau derbyn yn berthnasol iddi, neu o leiaf chwe wythnos cyn y dyddiad y gall rhieni fynegi'r dewis a ffafrir ganddynt;

- Cytuno ar weithdrefnau i sicrhau bod plant all fod yn agored i niwed a'r rhai sy'n cyrraedd yr ardal y tu allan i'r cyfnod derbyn arferol, yn cael eu gosod mewn ysgol cyn gynted â phosib. Mae plant agored i niwed yn cynnwys rhai gafodd eu gwahardd o'r ysgol o'r blaen, plant mewn gofal, plant troseddwyr ifainc gydag ADY a/neu anableddau, plant Sipsiwn a Theithwyr, neu'r rhai sy'n anodd eu gosod neu sydd ag ymddygiad heriol. Dylid delio â throsglwyddiad rheoledig plant o'r fath mor gyflym a sensitif â phosib;
- Monitro cydymffurfiad â Derbyniadau Ysgol, y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion a deddfwriaeth berthynol.

**Adroddiadau ar effeithiolrwydd trefniadau derbyn lleol**

Mae angen cyhoeddi adroddiad blynyddol cryno i gynnwys y canlynol:-

- Aelodaeth y fforwm;
- Dyddiadau cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn;
- Nifer yn mynychu;
- Nifer dewisiadau rhieni a gyflawnwyd;
- Nifer apeliadau derbyn a wnaed gan gynnwys y raddfa lwyddiant;
- Cymysgedd ethnig a chymdeithasol o ddisgyblion yn mynychu ysgolion yr ardal, gan gynnwys plant Sipsiwn a Theithwyr;
- Pa drefniadau derbyn a wnaed i sicrhau buddiannau plant agored i niwed
- I ba raddau mae'r drefn dderbyn a gytunwyd ar gyfer y flwyddyn yn llwyddo, a nifer y plant a dderbyniwyd i bob ysgol dan y drefn honno;
- Crynodeb byr o'r materion derbyn allweddol yn yr ardal a sut mae'r fforwm wedi mynd i'r afael â nhw.

Dylid anfon yr adroddiad hwn erbyn 30 Tachwedd bob blwyddyn i Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru, a'i ddosbarthu i'r rhai sydd â diddordeb personol mewn sicrhau bod anghenion plant agored i niwed yn cael eu cyflenwi.

**Deiliadaeth**

Penodir aelodau craidd ac aelodau ysgolion y fforwm am gyfnod o 4 blynedd ar y mwyaf, ac wedi hynny maent yn gymwys i gael eu hailbenodi.
Dylid adolygu aelodaeth y fforwm yn flynyddol ym mis Medi.

**Y drefn ar gyfer cyfarfodydd a phenodi swyddogion**

Dylid dilyn y canllawiau canlynol:-

- Mae angen i'r fforymau gwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn;
- Dylid rhoi rhybudd ynghylch amser a dyddiad y cyfarfod 7 niwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod a dylid darparu'r dogfennau perthnasol 7 niwrnod ymlaen llaw.

**Lledaenu cyngor a chyflwyno gwrthwynebiadau**

Dylai'r fforwm lle bynnag y bo'n bosib sicrhau consensws ymhlith yr holl aelodau yn hytrach na'r mwyafrif, a dylid ond lledaenu cyngor sy'n cynrychioli barn gytunedig y fforwm cyfan.

Rhaid i'r ALl gyhoeddi cyngor y fforwm yn 'adran derbyniadau i ysgolion' eu gwefan ac anfon copïau i holl awdurdodau derbyn yr ardal. Dylid hefyd cynnwys y cyngor yn y prosbectws cyfansawdd a gyhoeddir gan yr ALl yn flynyddol ar gyfer rhieni.